Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru

22ain o Fawrth 2026

Annwyl rieni a gofalwyr

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y tymor hwn, mae'n anodd credu pa mor gyflym mae'r wythnosau wedi hedfan heibio. Mae wedi bod yn dymor hynod brysur, llawn gweithgareddau cyffrous i'n disgyblion, ac rwy'n teimlo'n hynod o falch o'n disgyblion a'n staff am bopeth sydd wedi'i gyflawni.

Ymhlith yr uchafbwyntiau niferus, roedd ein hymweliadau addysgol unwaith eto yn sefyll allan fel cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ar draws yr ysgol ddysgu y tu hwnt i furiau'r ystafell ddosbarth Mae'r adborth gan y disgyblion a'u hymateb wedi bod yn wych ac mae'n amlwg eu bod wedi elwa'n fawr o'r profiadau hyn. Os nad ydych wedi eu gweld eisioes, mae lluniau niferus ar ein cyfrif *Instagram* @ysgol_llanhari

Roedd yr Eisteddfodau eleni yn yr adrannau cynradd ac uwchradd hefyd yn llwyddiant ysgubol. Roedd yn bleser gweld cymaint o'r disgyblion yn cymryd rhan gyda hyder ac angerdd.

Bydd disgyblion blynyddoedd 5-10 yn cymryd rhan yn ein sioe gerdd ddiweddaraf sef y *Teulu Addams* yn ystod yr wythnos olaf ac rwy'n siwr y bydd yn glo teilwng i'r tymor Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd - mae digwyddiadau fel hyn yn bosibl oherwydd y cydweithio cryf sydd gennym.

Mae nifer o ddyddiadau allweddol wedi'r Pasg. Yn fuan wedi'r gwyliau, cynhelir cystadlaethau saith bob ochr rygbi'r Urdd. Braf dweud bod nifer gynyddol o ddisgyblion wedi bod yn dod i ymarfer ac edrychwn ymlaen at brofi llwyddiant ein timau rygbi yn y gystadleuaeth hon ym mis Ebrill. Bydd arholiadau TGAU yn cychwyn ar y 7fed o Fai a dymunwn yn dda i bob disgybl sy'n sefyll arholiadau allanol eleni. Canol mis Mai, edrychwn ymlaen yn fawr am sioe gerdd cyntaf yr adran gynradd sef *Shrek.* Byddwn yn cychwyn defnyddio yr ap MCAS ar ôl y gwyliau i gofnodi absenoldeb ac fe gewch fwy o fanylion maes o law.

Rwy'n dymuno gwyliau braf a haeddiannol i bawb, a wedi'r Pasg, edrychaf ymlaen at weld pawb eto ar ddechrau'r tymor nesaf ar y 13eg o Ebrill. Gan obeithio am dywydd braf, bydd disgyblion cynradd yn gallu gwisgo gwisg haf bryd hynny a hefyd bydd hawl gan ddisgyblion uwchradd i wisgo siorts du smart (nid rhai chwaraeon) yn hytrach na throwsus, pe byddent yn dymuno gwneud. Diolch am eich cydweithrediad chi fel rhieni gyda hyn.

Yn gywir,

Meinir Thomas
Pennaeth

Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
01443 237824 | post@llanhari.cymru
www.llanhari.cymru

22nd of March 2026

Dear Parents and Carers

As we approach the end of this term, it's hard to believe how quickly the weeks have flown by. It has been an extremely busy term, full of exciting activities for our pupils, and I feel extremely proud of our pupils and staff for everything that has been achieved.

Among the many highlights, our educational visits once again stood out as valuable opportunities for the pupils across the school to learn beyond the classroom. The feedback from the pupils and their response has been fantastic and it is clear that they have benefited greatly from these experiences. If you haven't seen them yet, there are numerous pictures on our *Instagram* account @ysgol_llanhari

This year's Eisteddfod in the primary and secondary department were also a huge success. It was a pleasure to see so many of the pupils taking part with confidence and passion.

Pupils in years 5-10 will be taking part in our latest musical, *the Addams Family,* during the last week of term and I'm sure it will be a fitting end to the term. Thank you to everyone who contributed in any way - events like this are possible because of the strong team work ethic that we have.

There are many dates for the diary after Easter. Shortly after the holidays, the Urdd rugby sevens competitions will be held. It is pleasing to say that an increasing number of pupils have been coming to training sessions and we look forward to some good performances from our rugby teams in this competition in April. GCSE exams commence on the 7th of May and we wish all pupils sitting external exams this Summer, the best of luck with their revision. Mid May, we look forward to the primary department's first ever musical production, *Shrek*. After the holidays, we will start to use the MCAS app to note pupil absence and you will receive more information about this in due course.

I wish you all a happy and well-deserved holiday, and after Easter, I look forward to seeing everyone again at the start of the next term on the 13th of April. If the weather is favourable, primary pupils will be able to wear their summer uniform and secondary pupils will also be allowed to wear smart black shorts (not sports shorts) rather than trousers if they wish to. Thank you for your cooperation as parents with this.

Yours sincerely

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Headteacher